

John Owens Aberystwyth

IOSEPH DLAWD,

ADRODDIAD GWIR.

WG 35.2.3345


AT YR HWN Y DODED

HANES AM WRAIG

A ACHUBWYD YN RHAGLUNIAETHOL

RHAG

LLADD EI HUNAN.



Argraffwyd gan T. Rutt, Shacklewell, yn gyfagos i Lundan, ac a
werthir gan J. BURDITT, yn Rhif 60, Paternoster Row.

[Gwerth Céiniog.]

12 1810

IOSEPH DLAWD.

AMRYW flynyddoedd yn ol, yr oedd rhyw ddyn yn dlawd, hanner-call, a'i enw Ioseph, yn arfer myned ar negefau, a chario mân-feichiau, o'r naill fan i'r llall yn Llundain. Wrth iddo fod yn myned o heol i heol, ryw ddiwrnod, â rhyw grynfaich o edafedd yn crogi o ddeutu ei ysgwyddau, fe glywai ganu Salmau mewn Eglwys; ac yn y llun oedd arno fe darawodd ynddo flys troi i mewn. Dygwyddodd mai Eglwys Mair yn *Aldermanbury* oedd y lle; a'r Dr. Calamy oedd yno yn pregethu, tra yr oedd cynulleidfa fonedd-igaidd hardd yn ei wrandaw. Fe gymmerodd ei destun allan o 1 Tim. i. 15. *Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gauw pechaduriaid; o ba rai penaf ydwyf fi.* Oddiwrth y geiriau hyn fe bregethodd newydd da, didwyll a sylweddol yr efengyl, mewn modd eglur iawn; sef mai gwir yw y gair, fod iachawdwriaeth dragywyddol i'r gwaelaf a'r duaf o bechaduriaid, i'w chael yn unig trwy ddiylngdod Iesu Crist, y Duw a wnaeth bob peth. Dyma yr athrawiaeth y dywed yr Apostol *nad llawer o rai galluog, nad llawer o rai boneddigion sy yn ei chofleidio; tra y mae Duw wedi dewis ffel-bethau a gwan-bethau y byd, fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn, &c.* 1 Cor. i. 26, 27. Yr oedd y gynulleidfa yn gyffredin yn gwrandaw y pethau hyn yn ddigon digyffro; ac heb fod nemawr bwngc yn effeithio arnynt, oddi-eithyr ambell ymadrodd tlws a rhagorwych, a fyddai yn brawf o ddysgleirdeb dawn y pregethwr. Ond Ioseph yn ei garpiau, yr oedd e'n dyfal-wrandaw dan synu, heb dynu ei lygaid oddi ar y pregethwr; ond megis yn yfed ac yn llyngem y cwbl a ddywedwyd; ac, with

fras-gerdded tung adref, fe'i clybuwyd yn dadwrdd
 rhyngddo ag ef ei hun fel hyn; Erioed ni chlywodd
 Ioseph mo hyn o'r blaen; Crist Iesu, y Duw a wnaeth
 bob peth, wedi dyfod i'r byd, i gadw pechaduriaid o
 fath Ioseph; ac y mae hyn yn wfr: "gwir yw y gair."
 Cyn pen llawer o amser ar ol hyny fe ddaeth llucheden
 drom ar Ioseph, ac yr oedd ef yn glaf iawn, a than
 arwyddion angau. Wrth ymdreiglo ar ei wely, ei
 iaith yn barhaus oedd, "Y penaf o bechaduriaid ydyw
 " Ioseph: ond y mae Iesu Crist wedi dyfod i'r byd i
 " gadw pechaduriaid; ac y mae Ioseph yn ei garu am
 " hyny." Ei gymmydogion, wrth ddyfodi edrych am
 dano, oedd yn dra rhyfedd ganddynt ei glywed o hyl
 yn dal at hyn, a dim ond hyn. Rhywrai mwy cref-
 yddol nag eraill a ofynafant iddor amryw gwestiynau
 o'r fath yma: "Beth a ddywedwch chiwi am eich ca-
 " lon eich hun, Ioseph? A oes ynddi hi ddim arwydd
 " o ddaioni?" Eraill a ofynent, "A ydych chiwi
 " wedi ymwafgu â Christ, trwy weithred o ffydd
 " arno? Ond ei ateb oedd, "Na, na, nid oes dim
 " da yn Ioseph; ni fedr Ioseph weithredo dim—nid
 " oes gan Ioseph ddim i'w ddywedyd am dano ei
 " hunan, ond mai y penaf o bechaduriaid ydyw:
 " etto, gan mai gwir yw y gair, fod Iesu, yr hwn
 " a wnaeth bob peth, wedi dyfod i'r byd i gadw
 " pechaduriaid, paham nad eill Ioseph, ar ol y ewbl,
 " gael ei gadw?" Un gwr o'r rhai oedd yn dyfod
 uwch ei ben, wrth ddeall pa le y clywfai efe yr
 aturawiaeth hon, yr oedd efe mor barhaus, a chyd
 â'r fath hyfrydwch, yn fôn am dani, fe aeth ac a
 ofynodd gan y Dr. Calamy ddyfod i edrych am dano.
 Fe ddaeth: ond yr oedd Ioseph erbyn hyn wedi
 myned yn wan iawn, ac heb siared er's tro o amser;
 ac er dywedyd witho fod y Doctor Calamy wedi
 dyfod, nid oedd yn cymmeryd fawr o sylw. Ond
 gan gynted ag y clywodd efe ei lais yn dechreu
 siared ag ef, fe gyfododd yn ebrwydd i fynu ar ei
 benelinoedd, a chan gydio gafael yn ei ddwyllaw, a'u
 gwasgu y'nghyd, fe iefodd allan gan ushed ag y

medrai, â'i lais gwanlyd a chrynedig, "O, Syr,
 " chychwi ydyw gwas yr Arglwydd Iesu, a glywais
 " i yn dywedyd mor dda am dano: Y pênaf o
 " bechaduriaid ydyw Ioseph: ond gwir yw y gair,
 " fod Iesu Grist, y Duw a wnaeth bob peth, wedi
 " dyfod i'r byd i gadw pechaduriaid; a phaham
 " nad Ioseph? O, gweddiwch ar yr Iesu hwnw
 " trofod; gweddiwch ar iddo fy nghadw: Dywedwch
 " wrtho, fod Ioseph yn meddwl ei fod yn ei garu,
 " am ei fod wedi dyfod i'r byd i gadw y fath
 " bechaduriaid ag Ioseph." Y Doctor a weddiodd
 wrth ei wely: ar ol iddo ddarfod, fe ddiolchodd
 Ioseph iddo yn dra charedigol; ac wedi hyny
 rhoddodd ei law tan ei obenydd, ac a dynodd allan
 hen gerpyn, âg ynddo *bum Gini*, wedi eu rhwymo i
 fynu; a chan ei roi yn llaw y Doctor (tan ddal i'w
 gwasgu o hyd) fe ddywedodd wrtho fel hyn; "Fe
 " ddarfu i Ioseph yn ei ffolineb roi hyn i gadw,
 " tuag at ei gynnal wedi iddo fyned yn hên; ond
 " ni bydd Ioseph ddim byw i fyned yn hên;
 " cymmerwch chwi hyn o arian, a rhanwch hwynt
 " rhwng y bobl dlodion sy yn caru yr Arglwydd
 " Iesu: A dywedwch withynt fod Ioseph yn eu
 " rhoi iddynt er ei fwyn Ef, yr hwn a ddaeth i'r
 " byd i gadw pechaduriaid; a'r pênaf un o honynt
 " ydyw Ioseph." Ar ol dywedyd fel hyn, fe
 ymollyngodd i orwedd. Yr oedd ei ymdrechlad i
 siared wedi bod ar y mwyaf i'w natur wan: yn
 fuan iawn fe fu farw.

Yr oedd hon yn olwg na's medrai y Doctor
 Calamy ddim troi cefn arni heb dywallt dagrau, ac
 wylo uwch ben Ioseph dlawd: ac fe fyddai yn arfer
 adrodd hyn o hanes, gydâ ferliogrwydd teimladol,
 fel un o'r dygwyddiadau mwyaf cynhyrffiol a'i cyfarfu
 yn ei fywyd.

Hanes am Wraig a gafodd yn Rhaf
 luniaethol ei hachub rhag bod
 Hunan-leiddiad.

RAI blynnyddoedd yn ol, yr oedd Gwr Eglwys
 ar ei daith trwy dref Bristol : a chan iddo gael
 ofyn i bregethu, ar ddydd Sul, fe gydfyniodd. Ar
 darfod y bregeth, ar ei ffordd i'r wisg-le (*vest*)
 fe ddaeth gwraig ganol-oed i'w gyfarfod, â'r dag
 yn rhedeg i lawr ei hwyneb, gan ddeisyf cael y
 ddyddan ag ef. Yntau a ofynnodd iddi ddyfod i mewn
 a chan gynted ag y medrai hi dori geiriau, gan wy
 hi a ddechreuodd fel hyn; " Syr, mi a ddaethu
 " mewn i'r Eglwys hon (*St. Werburgh*) i
 " fwriadu hyny o'r blaen, na meddwl myned yn
 " i un Eglwys arall. Dychrynlyd i'w adrodd:
 " oeddwn i, trwy gymhellid Satan, wedi ymro
 " i'm dyfetha fy hun. A rhyw lyn penodol, fy
 " gerllaw i'r ddinas, yr oeddwn wedi bwriadu
 " nhafu fy hunan iddo. Ond fel yr oeddwn, ar
 " ffordd ato, yn myned heibio i ddrws yr Eglw
 " yma, fe darawodd rhyw feddwl disymmawth yng
 " ac mi droais i mewn, gan dybio y gallai gweddïau
 " Eglwys beri i Dduw gymmeryd trugaredd ar
 " enaid truan. Ond yr oedd y gweddïau w
 " darfod; ac yr oeddych chiwi ar ddechreu darl
 " eich testun, *Deuwch ataf fi bawb ag y sydd yn flinde*
 " *ac yn llwythog, ac mi a esmwythâf arnoch*, Mat. xi.
 " Y geiriau a wnaethant i mi fynu, ac a'm rhwy
 " asant i wrandaw yn llwyr-ddyfal yr hyn a ddyw
 " asoch. Ac yn awr, Syr, chiwi a ddylech gael
 " wybod, os oes gobaith yn bod i'r fath un druen
 " yr wyf yn gobeithio y dengys Duw drugaredd,
 " ei fod wedi dangos trugaredd i mi bechadures,
 " hon y buasai raid fy mod, mewn ychydig am

wedi soddi i uffern. O, Syr, Duw cariad yw; ac y mae Crist yn lachawdwr. Yr wyf am ddyfod, ac yn dyfod, ato: a byth ni pheidiaf âg ersyn arno am ei esmwythâd y mae yn ei gynnyg ac yn ei addaw. Y mae llwyth fy enaid yn agos wedi myned i lawr. Y mae y diafol wedi colli ei afael ynof: Ac onid oes lle i mi hyderu na fydd i Grift byth fy ngadael? Un ffair wyf yn ei gofyn ymhellach gënych chwi; ar i chwi weddio tros of pa le bynag y byddoch, a pha le bynag yr eloch. A'r Arglwydd a'ch bendithio, mi a attolygaf arno."

"With weled y fath dro anghyffredin," medd yr alwyswr, "mi a ofynais iddi am ei lle trigiannol, i'r dyben o alw esof hi y bore drannoeth. Hyny a wnaethum; a da fu gënyf ei chael yn gwbl dawel, ac yn llwyr-fwriadu darllen ei Bibl yn beunyddiol, ymgeisio â Duw mewn gweddi, a dyfal-wrandaw pregethiad ei air."

Fel hyn y gwelwn y canlyniad alaethus o anwydaeth. Y mae yn celu ac yn meithrin pechod, yn oi grym i Satan, ac yn arwain i mewn y tristwch yn fydd yn gweithio angau. Ond yr efengyl, pan ylygir hi i'r galon, er ei bod yn dangos ysprydolrwydd gyfraith a mawr-ddrwg pechod, y mae hi yn guddio ac yn cyfeirio at lachawdwr. ac yna ydych chi yr Yspryd, y Dyddanydd, yn cymmeryd o eiddo Iesu, ac yn cymhwyso y gorphwyfdra fy wedi ei law i'r holl rai fy flinderog a llwythog gan faich, i'w thrwm eu pechodau.

CLYW, bechadur, saf yn fuan,
 Paid â dylun llwybrau'r Fall,
 Rhag it' syrthio tros y geulan,
 I ddyfnderoedd bythol wall:
 Oni chym'ri rybudd pryfur,
 Barn a ddisgyn oddi draw;

Trwm arfwydu fydd dy ddolur,
Tan y dial, ddydd a ddaw.

Os dylyni chwantau pechod
Ond ychydig bach yn hwy,
Duw sy'n bygwth, fe rydd ddyrnod,
Na fydd raid dy daro mwy :
Y mae'n taffu ei elynion
I waelodion bythol wae ;
O, na ddylyn chwantau bryntion ;
Trwm yw'r cyflog i barhâu.

Annuwiolion, er eu crechwen,
Er mor firiol wrol wedd,
Er eu chwerthin digrif llawen,
Er eu dawns a'u melys wledd,
Er eu gwychder, er eu hyder,
Er eu hiechyd, llonfyd llawn,
Er eu meddwl cry' dibryder,
Mae eu dydd yn agos iawn.

Fe ddaw gwafigfa a chaledi
Ar eu gwarthaf, cyn bo hir ;
Fe ddaw arnynt fraw a chyni,
Daw, a dial dwys yn wir ;
Er eu nerth, ac er eu doniau,
Ni chânt fod yn hir yn iach ;
Daw yr ing, a du-oer angau,
Diwedd pryd y bywyd bach.

Ar y cwmwl fe ddaw'r Iesu,
Daw, i farnu mayr a mân ;
Bydd anwirioid y pryd hyny
Megis sofr o flaen y tân :
Lluoedd annuwiolion euog,
Cânt eu taffu'n filoedd myrdd,
Tros y geulan i gael cyflog
Uniawn am eu gwyrog ffyrdd.
Bechaduriaid, etto cofiwch,
Cyn ei myned yn rhy hwyr ;

Duw fy'n galw, 'n awr dychwelwch,
 Onid é, daw dial llwyr:
 Yn nydd gras; cyn awr marwolaeth,
 Y mae caffael gras a hedd;
 Ni bydd tynnyg iechydwrriaeth,
 Na maddeuant, yn y bedd.

Etto heddyw y mae galwad,
 Heddyw, heddyw d'wedwch, Awn;
 Ffown at Grist, y tirion Geidwad;
 Rhad faddeuant ganddo cawn:
 Rhoes ei waed, a rhoes ei hunan,
 Rhoes ei fywyd pur i lawr,
 I gael pechaduriaid aflan
 Byth yn lân o'u brynti mawr.

Y mae'r ffynon yn agored,
 Gras y nefoedd heb brinhâu;
 Y mae'n derbyn y rhai diried,
 I'w heddychu, a'u glanhâu:
 Mae llawenydd yn y nefoedd,
 Pan fo un pechadur trist,
 Yn y dirgel, ac ar gyhoedd,
 Yn nefâu at Iesu Grist.

offwyd gan T. Rutt, Shacklewell, yn gxfages i Lundain, ac a
 werthir gan J. Burditt, yn Rhif 60, Paternoster Row.